



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# **ADRODDIAD ar y GOBLYGIADAU ar gyfer SAFLEOEDD EWROPEAIDD**

## **Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Arfaethedig Abergelli Power**

Adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio a baratowyd gyda  
chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010069

04 Mawrth 2019

[Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol]

## TABL CYNNWYS

<b>1</b>	<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>1</b>
1.1	CEFNDIR .....	1
1.2	DOGFENNAU A DDEFNYDDIWD I LYWIO'R RIES HWN .....	2
1.3	STRWYTHUR Y RIES HWN.....	3
<b>2</b>	<b>TROSOLWG .....</b>	<b>5</b>
2.1	SAFLEOEDD EWROPEAIDD A YSTYRIWYD.....	5
2.2	MATERION HRA A YSTYRIWYD YN YSTOD YR ARCHWILIAD .....	7
<b>3</b>	<b>EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL .....</b>	<b>8</b>
3.1	CRYNODEB O GANLYNIADAU SGRINIO HRA YN YSTOD YR ARCHWILIAD.....	11
	<b>ATODIAD 1: CYNLLUNIAU A PHROSIECTAU A YSTYRIWYD YN ASESIAID AR Y CYD YR YMGEISYDD .....</b>	<b>12</b>

[Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol]

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

- 1.1.1 Mae Abergelli Power Limited (yr Ymgeisydd) wedi gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn caniatâd datblygu (DCO) o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 ar gyfer Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy arfaethedig Abergelli (y cais). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penodi Awdurdod Archwilio i gynnal archwiliad o'r cais, i adrodd ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau, ac i wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r penderfyniad i'w wneud am y cais.
- 1.1.2 Yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd<sup>1</sup> a'r Rheoliadau Cynefinoedd<sup>2</sup> ar gyfer ceisiadau a gyflwynir o dan gyfundrefn Deddf Cynllunio 2008. Bydd y canfyddiadau a'r casgliadau ar faterion cadwraeth natur a adroddir gan yr Awdurdod Archwilio yn helpu'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.
- 1.1.3 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi, dogfennu a chyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd yn y cais DCO, a'r wybodaeth a gyflwynwyd drwy gydol yr Archwiliad gan yr Ymgeisydd a Phartion â Buddiant, hyd at Derfyn Amser 5 yr Archwiliad (15 Chwefror 2019) mewn perthynas ag effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd<sup>3</sup>. Nid yw'n ddogfen annibynnol a dylid ei darllen ar y cyd â dogfennau'r Archwiliad a grybwyllir. Lle y rhoddir cyfeirnodau dogfennau mewn cromfachau sgwâr [] yn nhestun yr adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'r cyfeirnod hwnnw yn llyfrgell yr Archwiliad a gyhoeddir ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, y gellir ei chyrraedd trwy'r ddolen ganlynol:
- <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/abergelli-power/>
- 1.1.4 Fe'i cyhoeddir i sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â Phartion â Buddiant, gan gynnwys y corff cadwraeth natur statudol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynglŷn â materion Rheoliadau Cynefinoedd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Archwilio wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r adroddiad hwn. Ni fydd y RIES yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad.
- 1.1.5 Nid yw'r Ymgeisydd wedi amlygu unrhyw effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd mewn Gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd

<sup>1</sup> Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC, dyddiedig 21 Mai 1992, ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt (fel y'i codeiddiwyd) (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd').

<sup>2</sup> Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd).

<sup>3</sup> Yn y cyd-destun hwn, mae'r term Safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys Safleoedd o Bwys i'r Gymuned (SCIs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac ACAau ymgeisiol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), ACAau posibl, AGAau posibl, a safleoedd Ramsar. I gael disgrifiad llawn o'r dynodiadau y mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol iddynt, a/neu a gymhwysir fel mater o bolisi'r Llywodraeth, gweler Nodyn Cyngor 10 yr Arolygiaeth Gynllunio.

Ewropeaidd<sup>4</sup> [APP-066]. Dim ond safleoedd Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig (DU) yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn.

## 1.2 Dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r RIES hwn

- 1.2.1 Darparodd yr Ymgeisydd Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER), sef 'Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu sy'n Rhedeg ar Nwy Abergelli Power: Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol' (Dogfen 5.5) [APP-066], gyda'r cais DCO, ynghyd â matricesau sgrinio.
- 1.2.2 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad yn ei gais DCO na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr holl safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd.

### Yr Archwiliad

- 1.2.3 Nid yw casgliadau'r Ymgeisydd wedi cael eu herio mewn perthynas â'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a ystyriwyd yn yr NSER. Wrth ymateb i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio yn ystod yr Archwiliad, darparodd yr Ymgeisydd NSER [REP1-011] a matricesau sgrinio [REP1-019] wedi'u diweddarau, a gyflwynwyd i'r Awdurdod Archwilio ar 9 Tachwedd 2018.
- 1.2.4 Cyflwynodd yr Ymgeisydd y matricesau NSER wedi'u diweddarau i fynd i'r afael â chwestiynau yn ymwneud ag anghywirdebau yn yr adroddiad a'r troednodiadau. Ni ddiweddarwyd y casgliadau y daethpwyd iddynt yn y matricesau. Ni wnaed unrhyw ddiweddariadau ychwanegol i'r matricesau gan yr Awdurdod Archwilio.

### Dogfennau'r Cais

- Dogfen 5.5 (Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yr Ymgeisydd, mis Mai 2018) [APP-066]
- Dogfen 6.1 Datganiad Amgylcheddol Abergelli Power Limited [APP-042] Penodau 3 (Disgrifiad o'r Prosiect a'r Safle), 6 (Ansawdd Aer), 7 (Sŵn a Dirgryniad), 8 (Ecoleg) a 9 (Ansawdd Dŵr ac Adnoddau a Pherygl Llifogydd).
- Dogfen 6.2 Datganiad Amgylcheddol Abergelli Power Limited Cyfrol F Ecoleg Rhan 2 [APP-039] a Rhan 3 [APP-038]
- Dogfen 6.3 Datganiad Amgylcheddol Abergelli Power Limited Ffigurau [APP-021]
- Dogfen 6.3 Datganiad Amgylcheddol Abergelli Power Limited Ffigurau Amgylcheddol [APP-024]

---

<sup>4</sup> Gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## **Cynrychiolaethau a Gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 1 (9 Tachwedd 2018)**

- Abergelli Power Limited – Cyflwyniad Terfyn Amser 1 – Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol [REP1-011]
- Abergelli Power Limited – Cyflwyniad Terfyn Amser 1 – Matricsau Sgrinio HRA [REP1-019]
- Abergelli Power Limited – Cyflwyniad Terfyn Amser 1 – Ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio [REP1-010]
- Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyflwyniad Terfyn Amser 1 – Cynrychiolaeth Ysgrifenedig [REP1-026]
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe – Cyflwyniad Terfyn Amser 1 – Ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio [REP1-024].

## **Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG)**

- SoCG Abergelli Power Limited gyda Cyfoeth Naturiol Cymru [REP2-009]

## **Dogfennau Gwrandawriad**

- Abergelli Power Limited – Crynodeb Ysgrifenedig yr Ymgeisydd o Achos Llafar yr Ymgeisydd a gyflwynwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol [REP3-006]
- Recordiad o Wrandawriadau Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol – 13 Rhagfyr 2018 [EV-012].

## **1.3 Strwythur y RIES hwn**

### **1.3.1 Mae gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:**

- Mae **Adran 2** yn amlygu'r safle(oedd) Ewropeaidd a ystyriwyd yn y cais DCO ac yn ystod cyfnod yr Archwiliad, hyd at 15 Chwefror 2019. Mae'n rhoi trosolwg o'r materion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad.
- Mae **Adran 3** yn amlygu'r safle(oedd) Ewropeaidd a'r nodwedd(ion) cymwys a sgriniwyd gan yr Ymgeisydd am effeithiau arwyddocaol tebygol posibl, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r adran hefyd yn amlygu lle mae Partion â Buddiant wedi herio casgliadau'r Ymgeisydd, ynghyd ag unrhyw safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys ychwanegol a sgriniwyd am effeithiau arwyddocaol tebygol posibl yn ystod yr Archwiliad.

- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestr o'r cynlluniau a'r prosiectau a ystyriwyd yn rhan o asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar y cyd.



## 2 TROSOLWGW

### 2.1 Safleoedd Ewropeaidd a Ystyriwyd

- 2.1.1 Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â rheolaeth unrhyw rai o'r safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd o fewn asesiad yr Ymgeisydd o safbwynt cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.
- 2.1.2 Amlygodd Adroddiad HRA yr Ymgeisydd y safleoedd (a'r nodweddion) Ewropeaidd canlynol y mae'r DU yn gyfrifol amdanynt i'w cynnwys yn yr asesiad:

**Tabl 2.1: Safleoedd a Sgriniwyd yn rhan o'r HRA gan yr Ymgeisydd**

Enw'r Safle Ewropeaidd	Nodweddion
ACA Cors Crymlyn	Mignen bontio a chorsydd crynedig
	Ffeniau calchaid gyda <i>Cladium mariscus</i> a rhywogaethau <i>Caricion davallianae</i>
	Fforestydd llifwaddodol gydag <i>Alnus glutinosa</i> a <i>Fraxinus excelsior</i> ( <i>Alno-Padion</i> , <i>Alnion incanae</i> , <i>Salicion albae</i> ).
Ramsar Cors Crymlyn	O dan Faen Prawf 1 Yr enghraifft fwyaf o fignen dopogenaidd gorlifdir dyffryn yn ne Cymru, ac un o'r ffeniau mwyaf sy'n goroesi yng ngorllewin Prydain. Ychydig iawn o safleoedd eraill y gwyddys eu bod yn cynnal llystyfiant o gymhlethdod ac amrywiaeth tebyg.
	O dan Faen Prawf 2 Mae'n cynnal poblogaeth sylweddol o blu'r gweunydd eiddil <i>Eriophorum gracile</i> sy'n brin yn genedlaethol, ac amrywiaeth gyfoethog o anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan gynnwys llawer o rywogaethau prin a lleol iawn.
	O dan Faen Prawf 3 Mae'r safle'n cynnal 199 o rywogaethau planhigion fasgwlar, gan gynnwys 17 sy'n anghyffredin yn rhanbarthol ac un sy'n brin yn genedlaethol.
ACA Bae ac Aberoedd	Banciau tywod sydd o dan ddŵr môr i

Caerfyrddin	ryw raddau drwy'r amser
	Aberoedd
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Cilfachau a baeau bas mawr
	<i>Salicornia</i> a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
	Dolydd heli'r Iwerydd ( <i>Glaucopuccinellietalia maritima</i> )
	Gwangod <i>Alosa fallax</i>
	Lampreiod y môr ( <i>Petromyzon marinus</i> )
	Lampreiod yr afon ( <i>Lampetra fluviatilis</i> )
	Herlod ( <i>Alosa alosa</i> )
	Dyfrgwn ( <i>Lutra lutra</i> )
ACA Cilfach Tywyn	Pïod y môr <i>Haematopus ostralegus</i>
	Hwyaid cynffonfain <i>Anas acuta</i>
	Crynodiad cymwys: Gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol: Mae'r ardal yn gymwys o dan Erthygl 4.2 y Gyfarwyddeb (79/409/EEC) gan ei bod yn cynnal o leiaf 20,000 o adar dŵr yn rheolaidd
Ramsar Cilfach Tywyn	O dan Faen Prawf 5 Crynodïadau o bwysigrwydd rhyngwladol
	O dan Faen Prawf 6 Yn y gwanwyn/yr hydref: Pibyddion coesgoch, <i>Tringa totanus totanus</i>
	Yn y gaeaf: Hwyaid cynffonfain
	Yn y gaeaf: Pïod y môr, <i>Haematopus ostralegus ostralegus</i>
	Yn y gaeaf: Pibyddion coch, <i>Calidris canutus islandica</i>
	Ystyriaeth bosibl yn y dyfodol o dan Faen Prawf 6 Yn y gaeaf: Hwyaid llydanbig, <i>Anas clypeata</i>

- 2.1.3 Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys yr holl safleoedd Ewropeaidd o fewn 10km o'r orsaf cynhyrchu pŵer arfaethedig, ac yn benodol lleoliad arfaethedig y stac. Mae Tablau 1-3, 1-4, ac 1-5 yr NSER a gyflwynwyd [APP-066] yn cyfiawnhau cynnwys y safleoedd a restrir uchod yn yr ymarfer sgrinio HRA. Mae Paragraff 1.2.1 yr NSER yn cyfeirio at ymgynghoriad â CNC ym mis Medi 2017 a ddefnyddiwyd i lywio'r ymagwedd a ddefnyddiwyd. Ni roddir unrhyw gofnod arall o'r ymgynghoriad hwn yn yr NSER.
- 2.1.4 Mae NSER yr Ymgeisydd yn amlygu effeithiau posibl o ganlyniad i newidiadau mewn ansawdd dŵr yn sgil adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig (gan arwain at effeithiau ar gynefinoedd yn ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac ACA a Ramsar Cilfach Tywyn) a; newidiadau mewn ansawdd aer o ganlyniad i weithredu'r Datblygiad Arfaethedig (gan arwain at effeithiau ar gynefinoedd yn ACA a Ramsar Cors Crymlyn, ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac ACA a Ramsar Cilfach Tywyn).
- 2.1.5 Wrth ymateb i gwestiwn 1.6.18, o fewn Atodiad B ei gynrychiolaeth ysgrifenedig [REP1-026], cadarnhaodd CNC ei fod o'r farn bod yr ardal astudio 10km yn dderbyniol a bod y safleoedd a'r nodweddion cywir wedi cael eu hamlygu. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn cadarnhau bod yr effeithiau arwyddocaol tebygol priodol wedi cael eu nodi a'i fod yn cytuno â chwmpas a methodoleg yr asesiad ar y cyd a gyflwynwyd yn yr NSER. Mae ymateb CNC yn cadarnhau ei fod yn cytuno â chasgliadau'r NSER ac ni amlygodd unrhyw safle Ewropeaidd arall na nodweddion safleoedd Ewropeaidd eraill yn y DU y gallai'r prosiect effeithio arnynt.
- 2.1.6 Nid yw unrhyw barti arall wedi amlygu unrhyw safleoedd a nodweddion Ewropeaidd eraill y gallai'r prosiect effeithio arnynt.

## 2.2 Materion HRA a Ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad

- 2.2.1 Mae'r Archwiliad wedi canolbwyntio ar gadarnhau safbwynt partïon perthnasol ar gwmpas a chanlyniadau'r NSER. Roedd rhan o hyn yn cynnwys archwilio ymagwedd yr Ymgeisydd a ph'un a ystyriwyd mesurau lliniaru at ddibenion sgrinio HRA. Roedd yr HRA yn destun Eitem Agenda 7.6 yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol [EV-012].
- 2.2.2 Cododd yr Awdurdod Archwilio fân anghysondebau eraill yn yr NSER a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain trwy gwestiynau ysgrifenedig (gweler Paragraff 1.2.4 uchod).

### 3 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL

- 3.0.1 Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio sut mae wedi pennu'r hyn a fyddai'n gyfystyr ag 'effaith arwyddocaol' yn ei adroddiad HRA [REP1-011]. Mae hyn yn dilyn arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar asesu cynefinoedd (dogfen ganllaw'r CE: 'Rheoli safleoedd Natura 2000: Darpariaethau Erthygl 6 y Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43/EEC (2000)' a dogfen ganllaw'r CE: 'Asesu cynlluniau a phrosiectau sy'n cael effaith arwyddocaol ar safleoedd Natura 2000 (2001)').
- 3.0.2 Yn ogystal â'r uchod, mae'r Ymgeisydd wedi dweud bod yr NSER wedi cael ei baratoi gan roi ystyriaeth i gyfraith achosion perthnasol [Paragraffau 1.1.8 i 1.1.10, REP1-011]. Mae'r NSER yn cyfeirio'n benodol at ECJ C-323/17, a ddyfarnodd 'nad yw'n briodol, yn ystod y cam sgrinio, i ystyried y mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu'r prosiect ar y safle hwnnw'.
- 3.0.3 Mae'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael ag effeithiau ar y cyd posibl yn ei adroddiad HRA [REP1-011, Atodiad C Tabl 1-12]. Mae'r cynlluniau a'r prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd wedi'u rhestru yn Atodiad 1 y ddogfen hon.
- 3.0.4 Cytunwyd ar gwmpas yr asesiad ar y cyd â CNC [REP1-026] a Dinas a Sir Abertawe [REP1-024] yn ystod yr Archwiliad trwy gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio.
- 3.0.5 Daeth asesiad sgrinio'r Ymgeisydd [APP-066 a REP1-011] i'r casgliad **na fyddai'r prosiect yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol**, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar holl nodweddion cymwys yr holl safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd, a restrir isod.
- ACA Cors Crymlyn
  - Ramsar Cors Crymlyn
  - ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
  - ACA Cilfach Tywyn
  - Ramsar Cilfach Tywyn
- 3.0.6 **Ni heriwyd** casgliadau'r Ymgeisydd ynglŷn â'r safleoedd hyn a'u nodweddion gan unrhyw bartion â buddiant yn ystod yr Archwiliad.

**Tabl 3.1: Ymarfer sgrinio'r Ymgeisydd ac i ba raddau y cytunwyd â Phartion â Buddiant**

<b>Nodweddion</b>	<b>Canlyniad sgrinio*: a oes effaith arwyddocaol debygol yn unigol neu ar y cyd?</b>	<b>A gytunwyd â chyrrff cadwraeth natur statudol (SNCB) a phartion eraill perthnasol?</b>	<b>A oes angen asesu effeithiau ar gyfanrwydd?</b>	<b>A gytunwyd ag SNCB a phartion eraill perthnasol?</b>
<b><u>Enw'r safle Ewropeaidd: ACA Cors Crymlyn</u></b>				
Yr holl nodweddion a restrir yn Nhabl 2.1	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>Enw'r safle Ewropeaidd: Ramsar Cors Crymlyn</u></b>				
Yr holl nodweddion a restrir yn Nhabl 2.1	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>Enw'r safle Ewropeaidd: ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin</u></b>				
Yr holl nodweddion a restrir yn Nhabl 2.1	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>Enw'r safle Ewropeaidd: ACA Cilfach Tywyn</u></b>				
Yr holl nodweddion a restrir yn Nhabl 2.1	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>Enw'r safle Ewropeaidd: Ramsar Cilfach Tywyn</u></b>				
Yr holl nodweddion a restrir yn Nhabl	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]	Nac oes [REP1-011, REP1-019]	Do [REP1-026] [REP1-024]

<b>Nodweddion</b>	<b>Canlyniad sgrinio*: a oes effaith arwyddocaol debygol yn unigol neu ar y cyd?</b>	<b>A gytunwyd â chyrrff cadwraeth natur statudol (SNCB) a phartïon eraill perthnasol?</b>	<b>A oes angen asesu effeithiau ar gyfanrwydd?</b>	<b>A gytunwyd ag SNCB a phartïon eraill perthnasol?</b>
2.1				

\*O adroddiad HRA [REP1-011] a matricesau sgrinio [REP1-019] yr Ymgeisydd.



# The Planning Inspectorate

## Yr Arolygiaeth Gynllunio

### 3.1 Crynodeb o ganlyniadau Sgrinio HRA yn ystod yr Archwiliad

- 3.1.1 Sgriniodd yr Ymgeisydd gyfanswm o 5 safle Ewropeaidd cyn yr Archwiliad (gweler Tabl 2.1). Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar yr holl safleoedd Ewropeaidd hyn a'u nodweddion cymwys (gweler Tabl 3.1). Nid oedd y partïon â buddiant wedi herio casgliad yr Ymgeisydd na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safleoedd Ewropeaidd hyn a'u nodweddion cymwys yn ystod yr Archwiliad (rhoddir cyfeiriadau yn Nhabl 3.1).
- 3.1.2 Ystyriodd yr Awdurdod Archwilio yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd yn yr NSER o ran y mesurau lliniaru y cyfeiriwyd atynt yn yr NSER a'r matricesau. Roedd yr Ymgeisydd wedi disgrifio nifer o fesurau a oedd yn gysylltiedig â'r drwydded amgylcheddol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig i warchod cyrsiau dŵr ac ansawdd dŵr. Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â ph'un a fyddai absenoldeb y mesurau hyn yn effeithio ar gasgliadau'r asesiad sgrinio. Wrth ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, [REP1-010] dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai effaith ar y casgliadau ac eglurodd na fwriadwyd i'r mesurau lliniaru leihau neu osgoi effeithiau ar y safleoedd Ewropeaidd. Mae Crynodeb Ysgrifenedig yr Ymgeisydd o Achos Llafar yr Ymgeisydd a gyflwynwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol [REP3-006] yn cofnodi bod CNC yn cytuno â'r safbwynt hwn.
- 3.1.3 Archwiliwyd yr effeithiau posibl o ganlyniad i newidiadau i ansawdd dŵr ac ansawdd aer yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2018. Cofnodir bod y canfyddiad ynglŷn â dim effeithiau arwyddocaol tebygol wedi'i dderbyn gan Ddinas a Sir Abertawe [REP3-006]. Roedd CNC a Dinas a Sir Abertawe wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â chanfyddiadau'r NSER yn gynharach erbyn Terfyn Amser 1 [REP1-026 a REP1-024, yn ôl eu trefn].
- 3.1.4 Gofynnodd yr Awdurdod Archwilio gwestiynau eraill ynglŷn ag asesu effeithiau o lwch adeiladu, allyriadau traffig, a'r casgliad na fyddai effeithiau arwyddocaol tebygol mewn perthynas ag ACA a safle Ramsar Cors Crymlyn lle y dywedir yn y Datganiad Amgylcheddol [Paragraff 8.7.127, APP-042] bod y Llwyth Critigol ar gyfer nitrogen ac asid nitrogen eisoes yn uwch na'r trothwy. Ymatebodd yr Ymgeisydd i'r cwestiynau hyn drwy egluro'r asesiadau a gynhaliwyd a'r dystiolaeth sy'n ategu'r casgliad na fyddai effeithiau arwyddocaol tebygol [REP1-10]. Nid oedd gan unrhyw bartïon eraill sylwadau ychwanegol.
- 3.1.5 Mae'r Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) rhwng yr Ymgeisydd a CNC a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-009] yn dweud bod sylwadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â'r cais cynllunio, ac nid mewn perthynas â'i rôl fel awdurdod cymwys ar gyfer y cais am drwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) a oedd yn cael ei bennu ar y pryd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

## **ATODIAD 1: CYNLLUNIAU A PHROSIECTAU A YSTYRIWYD YN ASESIAD AR Y CYD YR YMGEISYDD**





The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

<b>Cynllun neu Brosiect</b>	<b>Disgrifiad</b>
<b>Wrthi'n cael ei adeiladu*</b>	
Parc Busnes Felindre	Parc busnes 61ha.
Fferm Solar Abergelli	Fferm solar, oddeutu 37,000 o baneli.
Cam 1 Cefn Betingau, Treforys	Fferm solar, oddeutu 40,000 o baneli.
Parc Solar Gelliwern Isaf	Cyfres o unedau pŵer solar, gydag allbwn o oddeutu 5 MW
Parc Solar Brynwhilach	Cyfres o unedau pŵer solar, gydag allbwn o oddeutu 12.7 MW.
Hen Waith Dur J R, Bryntywod (Griffiths Waste Management)	Cyfleusterau rheoli gwastraff
Fferm Wynt Mynydd y Gwair	Fferm wynt ar y tir, yn cynnwys 16 tyrbin, gyda chapasiti gosodedig o 33.6 MW
Parc Ceirw, Chwarel Cwmrhydyceirw, Abertawe	250 i 300 o eiddo preswyl arfaethedig, o fewn safle o oddeutu 14 ha.
<b>Wedi'i ganiatáu ond heb ei weithredu*</b>	
Fferm Wynt Tyle Coch Mawr	Gosod pedwar tyrbin 5 kW
Parc Busnes Felindre	Adeiladu safle parcio a theithio/rhannu ceir (oddeutu 480 o leoedd) gyda mynedfa newydd i gerbydau, swyddfa ddiogelwch, tŷ bach, gwaith peirianegol a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys goleuadau, ffensys, system ddraenio arafu dŵr a thirweddu.
Fferm Llety'r Morfil	Cyfres o unedau pŵer solar, gydag allbwn o oddeutu 5 MW.
Llain 8 Parc Busnes Strategol Felindre	Ail ran safle hen Waith Dur J R. Dymchwel adeiladau presennol y cyfleuster rheoli gwastraff ac adeiladu adeiladau newydd a seilwaith cysylltiedig.
Hen Iard Walters, Pontlliw, Abertawe	Adeiladu 67 annedd breswyl ar safle 2.2 ha.
<b>Wedi'i gyflwyno ond heb ei benderfynu eto*</b>	
Tir ar Llewellyn Road, Penllergaer	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 200 o anheddau preswyl
Cyrchfan Golff Royal Fern	Cais am gyfleusterau hamdden ac ymwelwyr o ansawdd uchel, o fewn safle 150 ha.
Tir i'r gorllewin o Heol Llangyfelach,	Cais cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu



# The Planning Inspectorate

## Yr Arolygiaeth Gynllunio

Tirdeunaw	1950 o anheddau
Tir i'r gogledd o Garden Village, Abertawe	Cais cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu 750 o anheddau.
Yr Hen Ganolfan Ddinesig, Penllergaer, Abertawe SA4 9GH	Cais am adeiladu 80 o anheddau preswyl.
Wedi'i Amlygu/Wedi'i Ddyrannu (ond na chyfeiriwyd ato uchod)*	
Safle Defnydd Cymysg Strategol Bro Tawe	25 ha o dir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth
Tir ym Mryntywod, Felindre (Safle Cyflogaeth Leol)	15.8 ha o dir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth
Parc Busnes Penllergaer (Safle Cyflogaeth Leol)	8.2 ha o dir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth
I'r gorllewin o Ysbyty Treforys	Lle wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ag ymestyn yr ysbyty
I'r gogledd-orllewin o G46 yr M4, Llangyfelach	Datblygiad preswyl a defnydd cymysg o oddeutu 850 o dai, yn ogystal â datblygiad cysylltiedig.
I'r de o Heol Glanffrwd, Pontarddulais	Datblygiad preswyl a defnydd cymysg o oddeutu 720 o dai, yn ogystal â datblygiad cysylltiedig.
I'r de o'r A4240, Penllergaer	Datblygiad preswyl a defnydd cymysg o oddeutu 750 o dai, yn ogystal â datblygiad cysylltiedig.
I'r gogledd o Heol Clasemont, Treforys	Datblygiad preswyl a defnydd cymysg o oddeutu 675 o dai, yn ogystal â datblygiad cysylltiedig.
Ysbyty Treforys	Lle wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig ag ymestyn yr ysbyty yn y dyfodol
Safle'r Hen Domen Sbwriel, Felindre	Yr ardal a ffefrir ar gyfer y cyfleusterau rheoli gwastraff newydd.
Tir yn Heol Ramsey, Clydach	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 60 o anheddau preswyl
Tir i'r dwyrain o Heol Pontarddulais, Gorseinon	Lle wedi'i ddyrannu ar gyfer anheddau preswyl.
Tir yn Heol Carmel a Heol Bryntirion, Pontlliw	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 90 o anheddau preswyl
Tir i'r gogledd o Llewellyn Road, Penllergaer	Lle wedi'i ddyrannu ar gyfer anheddau preswyl.
Tir yn Heol Bolgoed, Pontarddulais	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 100 o anheddau preswyl

\* Fe'u cymerwyd o Dabl 1-12, Atodiad C, NSER yr Ymgeisydd wedi'i Ddiweddarau [REP1-011].



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# **REPORT on the IMPLICATIONS for EUROPEAN SITES**

## **Proposed Abergelli Power Gas Fired Generating Station**

An Examining Authority report prepared with the  
support of the Environmental Services Team

Planning Inspectorate Reference: EN010069

04 March 2019

[This page is intentionally left blank]

## TABLE OF CONTENTS

<b>1</b>	<b>INTRODUCTION .....</b>	<b>1</b>
1.1	BACKGROUND .....	1
1.2	DOCUMENTS USED TO INFORM THIS RIES .....	2
1.3	STRUCTURE OF THIS RIES.....	3
<b>2</b>	<b>OVERVIEW .....</b>	<b>4</b>
2.1	EUROPEAN SITES CONSIDERED .....	4
2.2	HRA MATTERS CONSIDERED DURING THE EXAMINATION.....	6
<b>3</b>	<b>LIKELY SIGNIFICANT EFFECTS .....</b>	<b>7</b>
3.1	SUMMARY OF HRA SCREENING OUTCOMES DURING THE EXAMINATION .....	9
	<b>ANNEX 1: PLANS AND PROJECTS CONSIDERED IN THE APPLICANT’S IN- COMBINATION ASSESSMENT .....</b>	<b>10</b>

[This page is intentionally left blank]

## 4 INTRODUCTION

### 4.0 Background

- 4.0.1 Abergelli Power Limited (the Applicant) has applied to the Secretary of State for a development consent order (DCO) under section 37 of the Planning Act 2008 (PA2008) for the proposed Abergelli Power Gas Fired Generating Station (the application). The Secretary of State has appointed an Examining Authority (ExA) to conduct an examination of the application, to report its findings and conclusions, and to make a recommendation to the Secretary of State as to the decision to be made on the application.
- 4.0.2 The relevant Secretary of State is the competent authority for the purposes of the Habitats Directive<sup>5</sup> and the Habitats Regulations<sup>6</sup> for applications submitted under the PA2008 regime. The findings and conclusions on nature conservation issues reported by the ExA will assist the Secretary of State in performing their duties under the Habitats Regulations.
- 4.0.3 This report compiles, documents and signposts information provided within the DCO application, and the information submitted throughout the examination by both the Applicant and Interested Parties, up to Deadline 5 of the examination (15 February 2019) in relation to potential effects to European Sites<sup>7</sup>. It is not a standalone document and should be read in conjunction with the examination documents referred to. Where document references are presented in square brackets [] in the text of this report, that reference can be found in the Examination library published on the National Infrastructure Planning website at the following link:
- <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/abergelli-power/?ipcsection=docs>
- 4.0.4 It is issued to ensure that Interested Parties including the statutory nature conservation body Natural Resources Wales (NRW), are consulted formally on Habitats Regulations matters. This process may be relied on by the Secretary of State for the purposes of Regulation 63(3) of the Habitats Regulations. Following consultation the responses will be considered by the ExA in making their recommendation to the Secretary of State and made available to the Secretary of State along with this report. The RIES will not be revised following consultation.

---

<sup>5</sup> Council Directive 92/43/EEC of 21 May 1992 on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora (as codified) (the 'Habitats Directive').

<sup>6</sup> The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 (the Habitats Regulations).

<sup>7</sup> The term European Sites in this context includes Sites of Community Importance (SCIs), Special Areas of Conservation (SACs) and candidate SACs, Special Protection Areas (SPAs), possible SACs, potential SPAs, and Ramsar sites. For a full description of the designations to which the Habitats Regulations apply, and/ or are applied as a matter of Government policy, see PINS Advice Note 10.

4.0.5 The Applicant has not identified any potential impacts on European sites in other EEA States<sup>8</sup> [APP-066]. Only UK European sites are addressed in this report.

## 4.1 Documents used to inform this RIES

4.1.1 The Applicant provided a No Significant Effects Report (NSER) entitled 'The Abergelli Power Gas Fired Generating Station Order: No Significant Effects Report' (Document 5.5)[APP-066] with the DCO application, together with screening matrices.

4.1.2 The Applicant concluded within their DCO application that there would be no likely significant effects on all European site(s) considered.

### Examination

4.1.3 The Applicant's conclusions have not been disputed for the European sites and qualifying features considered in the NSER. In response to the ExA's first written questions during the examination, the Applicant provided an updated NSER [REP1-011] and screening matrices [REP1-019], both submitted to the ExA on 9<sup>th</sup> November 2018.

4.1.4 The Applicant submitted the updated NSER matrices to address questions around inaccuracies in the report and footnotes. The conclusions drawn in the matrices were not updated. No further updates have been made to the matrices by the ExA.

### Application Documents

- Document 5.5 (the Applicant's HRA Report May 2018) [APP-066]
- Document 6.1 Abergelli Power Limited Environmental Statement [APP-042] Chapters 3 (Project and Site Description), 6 (Air Quality), 7 (Noise and Vibration), 8 (Ecology) 9 (Water Quality and Resources and Flood Risk).
- Document 6.2 Abergelli Power Limited Environmental Statement Volume F Ecology Part 2 [APP-039] and Part 3 [APP-038]
- Document 6.3 Abergelli Power Limited Environmental Statement Figures [APP-021]
- Document 6.3 Abergelli Power Limited Environmental Statement Environmental Figures [APP-024]

### Representations Submitted at Deadline 1 (9<sup>th</sup> November 2018)

- Abergelli Power Limited – Deadline 1 Submission – No Significant Effects Report [REP1-011]
- Abergelli Power Limited – Deadline 1 Submission – HRA Screening Matrices [REP1-019]

---

<sup>8</sup> European Economic Area (EEA) States.



- Abergelli Power Limited -Deadline 1 Submission – Response to the Examining Authority’s Written Questions [REP1-010]
- Natural Resources Wales – Deadline 1 Submission – Written Representation [REP1-026]
- City and County of Swansea Council – Deadline 1 Submission – Response to the Examining Authority’s Written Questions [REP1-024].

### **Statements of Common Ground (SoCG)**

- Abergelli Power Limited SoCG with Natural Resources Wales [REP2-009]

### **Hearing Documents**

- Abergelli Power Limited - Applicant’s Written Summary of the Applicant’s Oral Case put at the Environmental Matters Issue Specific Hearing [REP3-006]
- Recording of Issue Specific Hearings on Environmental Matters – 13 December 2018 [EV-012].

## **4.2 Structure of this RIES**

### **4.2.1 The remainder of this report is as follows:**

- **Section 2** identifies the European site(s) that have been considered within the DCO application and during the examination period, up to 15<sup>th</sup> February 2019. It provides an overview of the issues that have emerged during the examination.
- **Section 3** identifies the European site(s) and qualifying feature(s) screened by the Applicant for potential likely significant effects, either alone or in-combination with other projects and plans. The section also identifies where Interested Parties have disputed the Applicant’s conclusions, together with any additional European sites and qualifying features screened for potential likely significant effects during the examination.
- **Annex 1** contains a list of the plans and projects considered in the Applicant’s in-combination assessment.

## 5 OVERVIEW

### 5.0 European Sites Considered

- 5.0.1 The Proposed Development is not connected with or necessary to the management for nature conservation of any of the European site(s) considered within the Applicant's assessment.
- 5.0.2 The Applicant's HRA Report identified the following European site(s) (and features) for which the UK is responsible for inclusion within the assessment:

**Table 2.1: Sites Screened into the HRA by Applicant**

Name of European Site	Features
Crymlyn Bog SAC	Transition mire and quaking bogs
	Calcareous fens with <i>Cladium mariscus</i> and species of the <i>Caricion davalliana</i>
	Alluvial forests with <i>Alnus glutinosa</i> and <i>Fraxinus excelsior</i> ( <i>Alno-Padion</i> , <i>Alnion incanae</i> , <i>Salicion albae</i> ).
Crymlyn Bog Ramsar	Under Criterion 1 Largest example of valley floodplain topogenous mire in South Wales, and one of the largest surviving fens in the west of Britain. Very few other sites are known to support a comparable complexity and diversity of vegetation.
	Under Criterion 2 Supports a substantial population of the nationally-rare slender cotton-grass <i>Eriophorum gracile</i> , and a rich invertebrate fauna including many rare and highly localised species.
	Under Criterion 3 The site supports 199 vascular plant species including 17 regionally-uncommon and one nationally rare.
Carmarthen Bay and Estuaries SAC	Sandbanks which are slightly covered by sea water all the time
	Estuaries
	Mudflats and sandflats not covered by seawater at low tide

	Large shallow inlets and bays
	<i>Salicornia</i> and other annuals colonizing mud and sand
	Atlantic salt meadows ( <i>Glauco-Puccinellietalia maritimae</i> ).
	Twait shad <i>Alosa fallax</i>
	Sea lamprey ( <i>Petromyzon marinus</i> )
	River lamprey ( <i>Lampetra fluviatilis</i> )
	Allis shad ( <i>Alosa alosa</i> )
	Otter ( <i>Lutra lutra</i> )
Burry Inlet SPA	Oystercatcher <i>Haematopus ostralegus</i>
	Pintail <i>Anas acuta</i>
	Assemblage qualification: A wetland of international importance: The area qualifies under Article 4.2 of the Directive (79/409/EEC) by regularly supporting at least 20,000 waterfowl
Burry Inlet Ramsar	Under Criterion 5 Assemblages of international importance.
	Under Criterion 6 In spring/autumn: Common redshank, <i>Tringa totanus totanus</i>
	In winter: Pintail
	In winter: Oystercatcher, <i>Haematopus ostralegus ostralegus</i>
	In winter: Red knot, <i>Calidris canutus islandica</i>
	Possible future consideration under Criterion 6 In winter: Northern shoveler, <i>Anas clypeata</i>

5.0.3 The Applicant included all European sites within 10km of the proposed power generation plant, specifically the proposed location of the stack. Tables 1-3, 1-4, and 1-5 of the submitted NSER [APP-066] provide justification for the inclusion of the sites listed above within the HRA screening exercise. Reference is made to consultation with NRW in September 2017 in Paragraph 1.2.1 of the NSER being used to inform the approach taken. No other record of this consultation is provided in the NSER.

- 5.0.4 The Applicant's NSER identifies potential effects from changes in water quality from construction of the Proposed Development (resulting in effects on habitats in Carmarthen Bay and Estuaries SAC and Burry Inlet SPA and Ramsar) and; changes in air quality from operation of the Proposed Development (resulting in effects on habitats in Crymlyn Bog SAC and Ramsar, Carmarthen Bay and Estuaries SAC and Bury Inlet SPA and Ramsar).
- 5.0.5 In response to question 1.6.18, within Annex B of their written representation [REP1-026], NRW confirmed that they considered the 10km study area acceptable and that the correct sites and features had been identified. This response also confirmed that the appropriate LSE had been identified and that they were in agreement with the scope and methodology of the in-combination assessment presented in the NSER. The response confirms agreement with the conclusions of the NSER and NRW did not identify any other UK European site or European site features that could be affected by the project.
- 5.0.6 No other European sites and features have been identified as being potentially affected by the project by any party.

## 5.1 HRA Matters Considered During the Examination

- 5.1.1 The Examination has focussed on establishing the position of relevant parties on the scope and outcomes of the NSER. Part of this was to examine the Applicant's approach and whether mitigation had been taken into account for the purposes of HRA screening. HRA was Agenda Item 7.6 at the Environmental Matters Issue Specific Hearing [EV-012].
- 5.1.2 Other minor discrepancies in the NSER submitted at Application were also raised by the ExA and addressed through written questions (see Paragraph 1.2.4 above).

## 6 LIKELY SIGNIFICANT EFFECTS

- 6.0.1 The Applicant has described how they have determined what would constitute a 'significant effect' within their HRA report [REP1-011]. This follows EC guidance on habitats assessment (EC Guidance document: 'Managing Natura 2000 sites: The provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC (2000)' and EC Guidance document: 'Assessment of plans and projects significantly affecting Natura 2000 sites (2001)').
- 6.0.2 In addition to the above, the Applicant has stated that the NSER has been prepared with regard to relevant case law [Paragraphs 1.1.8 to 1.1.10, REP1-011]. The NSER specifically refers to ECJ C-323/17 which held that 'it is not appropriate, at the screening stage, to take account of the measures intended to avoid or reduce the harmful effects of the plan or project on that site'.
- 6.0.3 The Applicant has addressed potential in-combination effects within their HRA report [REP1-011, Appendix C Table 1-12]. The plans and projects included in the in-combination assessment are listed in Annex 1 of this document.
- 6.0.4 The scope of the in-combination assessment was agreed with NRW [REP1-026] and CCS [REP1-024] during the examination via the ExAs written questions.
- 6.0.5 The Applicant's screening assessment [both APP-066 and REP1-011] concluded that the project would have **no likely significant effect**, either alone or in-combination with other projects or plans, on all the qualifying features of all the European site(s) considered, listed below.
- Crymlyn Bog SAC
  - Crymlyn Bog Ramsar
  - Carmarthen Bay and Estuaries SAC
  - Burry Inlet SPA
  - Burry Inlet Ramsar
- 6.0.6 The Applicant's conclusions in relation to these sites and their features **were not disputed** by any interested parties during the examination.

**Table 3.1: The Applicant’s screening exercise and degree of agreement with Interested Parties**

<b>Features</b>	<b>Screening result*: LSE alone or in combination?</b>	<b>Agreed with SCNB and other relevant parties?</b>	<b>Assessment of effects on integrity required?</b>	<b>Agreed with SNCB and other relevant parties?</b>
<b><u>European site name: Crymlyn Bog SAC</u></b>				
All features listed in Table 2.1	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>European site name: Crymlyn Bog Ramsar</u></b>				
All features listed in Table 2.1	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>European site name: Carmarthen Bay and Estuaries SAC</u></b>				
All features listed in Table 2.1	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>European site name: Burry Inlet SPA</u></b>				
All features listed in Table 2.1	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]
<b><u>European site name: Burry Inlet Ramsar</u></b>				
All features listed in Table 2.1	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]	No [REP1-011, REP1-019]	Yes [REP1-026] [REP1-024]

\*From Applicant’s HRA report [REP1-011] and screening matrices [REP1-019].

## 6.1 Summary of HRA Screening outcomes during the examination

- 6.1.1 A total of 5 European sites were screened by the Applicant prior to examination (see Table 2.1). Of these sites, the Applicant concluded that there would be no likely significant effect on all European sites and their qualifying features (see Table 3.1). The interested parties did not dispute the Applicant's conclusion of no likely significant effects on these European sites and their qualifying features during the examination (references are signposted in Table 3.1).
- 6.1.2 The ExA explored the approach taken by the Applicant in the NSER in relation to the mitigation measures referred to in the NSER and matrices. The Applicant had described a number of measures connected to the environmental permit for the Proposed Development for the protection of watercourses and water quality. Clarification was sought as to whether the conclusions of the screening assessment would be affected should these measures not be in place. In their response to written question [REP1-010] the Applicant stated that the conclusions would not be affected and clarified that the mitigation measures were not intended to reduce or avoid effects on the European sites. The Applicant's Written Summary of the Applicant's Oral Case put at the Environmental Matters Issue Specific Hearing [REP3-006] records NRW as being in agreement with this position.
- 6.1.3 The potential effects due to changes to water quality and air quality were explored at the Issue Specific Hearing on Environmental Matters held on 13<sup>th</sup> December 2018. The findings of no likely significant effects are recorded as accepted by CCS [REP3-006]. Both NRW and CCS confirmed agreement with the findings of the NSER earlier at Deadline 1 [REP1-026 and REP1-024 respectively].
- 6.1.4 Other questions were raised by the ExA around the assessment of impacts from construction dust, traffic emissions, and the conclusion of no LSE in relation to Crymlyn Bog SAC and Ramsar site where the Critical Load for nitrogen and nitrogen acid is stated in the ES [Paragraph 8.7.127, APP-042] as already in exceedance. The Applicant provided responses to these questions providing clarification on the assessments undertaken and the evidence supporting the conclusion of no LSE [REP1-10]. No other parties had any further comment.
- 6.1.5 The Statement of Common Ground (SoCG) between the Applicant and NRW submitted at Deadline 2 [REP2-009] that comments are made in relation to the planning application, and not in relation to their role as competent authority for the EPR permit application being determined at the time for the Proposed Development.

# **ANNEX 1: PLANS AND PROJECTS CONSIDERED IN THE APPLICANT'S IN- COMBINATION ASSESSMENT**



Report on the Implications for European Sites for  
EN010069 Abergelli Power

<b>Plan or Project</b>	<b>Description</b>
<b>Under construction*</b>	
Felindre Business Park	61ha business park.
Abergelli Solar Farm	Solar farm, approximately 37,000 panels.
Cefn Betingau Phase 1, Morryston	Solar farm, approximately 40,000 panels.
Gelliwern Isaf Solar Park	Series of solar power units, with an approximate 5 MW output
Brynwhilach Solar Park	Series of solar power units, with an approximate 12.7 MW output.
Former J R Steelworks, Bryntywod (Griffiths Waste Management)	Waste management facilities
Mynydd y Gwair Wind Farm	An onshore wind farm, consisting of 16 turbines, with an installed capacity of 33.6 MW
Parc Ceirw, Cwmrhydyceirw Quarry, Swansea	Proposed 250 to 300 residential properties, within a site of approximately 14 ha.
<b>Permitted but not implemented*</b>	
Tyle Coch Mawr Wind Farm	Installation of four 5 kW turbines
Felindre Business Park	Construction of park and ride/share car park (approximately 480 spaces) with new vehicular access, security office, toilet, engineering and associated works, including lighting, fencing, drainage attenuation and landscaping.
Llettyr Morfil Farm	Series of solar power units, with an approximate 5 MW output.
Plot 8 Felindre Strategic Business Park	Second part of the Former J R Steelworks' site. Demolition of existing waste management facility buildings and construction of replacement buildings and associated infrastructure.
Former Walters Yard Pontlliw, Swansea	Construction of 67 residential dwellings on a site of 2.2 ha.
<b>Submitted but not determined*</b>	
Land at Llewellyn Road, Penllergaer	Outline application for the construction of 200 residential dwellings
Royal Fern Golf Resort	Application of a high-quality leisure and visitor facilities, within a 150 ha site.
Land West Of Llangyfelach Road Tirdeunaw	Outline planning application for the construction of 1950 dwellings
Land North Of Garden Village	Outline planning application for the

Report on the Implications for European Sites for  
EN010069 Abergelli Power

Swansea	construction of 750 dwellings.
Former Civic Centre Penllergaer Swansea SA4 9GH	Application or the construction of 80 residential dwellings.
Identified/Allocated (but not referenced above)*	
Swansea Vale Strategic Mixed-Use Site	25 ha allocated employment land
Land at Bryntywod, Felindre (Local Employment Site)	15.8 ha allocated employment land Th
Penllergaer Business Park (Local Employment Site)	8.2 ha allocated employment land
West of Morriston Hospital	Space allocated for hospital expansion related activities
Northwest of M4 J46, Llangyfelach	Residential and mixed-use development of approximately 850 houses, plus associated development.
South of Glanffrwd Road, Pontarddulais	Residential and mixed-use development of approximately 720 houses, plus associated development.
South of A4240, Penllergaer	Residential and mixed-use development of approximately 750 houses, plus associated development.
North of Clasemont Road, Morriston	Residential and mixed-use development of approximately 675 houses, plus associated development.
Morriston Hospital	Space allocated for future hospital expansion related activities
Former Tip Site, Felindre	Preferred area for the new waste management facilities.
Land at Ramsey Road, Clydach	Outline application for the construction of 60 residential dwellings
Land east of Pontarddulais Road, Gorseinon	Space allocated for residential dwellings.
Land at Carmel Road and Bryntirion Road, Pontlliw	Outline application for the construction of 90 residential dwellings
Land north of Llewellyn Road, Penllergaer	Space allocated for residential dwellings.
Land at Bolgoed Road, Pontarddulais	Outline application for the construction of 100 residential dwellings

\* Taken from Table 1-12, Appendix C, Applicant's Updated NSER [REP1-011].